

JONES, EVAN ('Gwrwst ab Bleddyn Flaidd ' neu'n fwy cyffredin ' Gwrwst '; 1793 - 1855), gweinidog Bedyddwyr a llenor

Enw: Evan Jones
Ffugenw: Gwrwst ab Bleddyn Flaidd, Gwrwst
Dyddiad geni: 1793
Dyddiad marw: 1855
Priod: Mary Jones (née Morgan)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Bedyddwyr a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd yn Llanddaged 26 Awst 1793. Dechreuodd bregethu 'n 18 oed, a phenodwyd ef yn genhadwr i L n ac Eifionydd yn 1815. Ordeiniwyd ef yn Garn Dolbenmaen, 25 Tachwedd 1817, ac ymsefydlodd yn Llangollen yn 1820 ac yn Nolgellau yn 1822. Aeth i Gasbach (Castleton) ym Medi 1823, ac yno y bu hyd ei farwolaeth ar 1 Rhagfyr 1855. Yn 1824 priododd Mary Morgan, Maesyfelin, St. Lythans, a ganed iddynt 12 o blant.

Bu ei weinidogaeth yng Nghasbach yn hynod o lwyddiannus - aeth yr aelodau ar gynnydd, agorwyd canghennau yn Llanelwyr (St. Mellons) yn 1833 a Llansantffraid (St. Bride, Wentloog) yn 1838, a chodwyd amryw i'r weinidogaeth - yn eu plith [J. R. Morgan](#) ('Lleuwrwg').

Ymgyfathrachodd lawer â llenorion ei ddydd, megis '[Robert ap Gwilym Ddu](#)' a '[Dewi Wyn o Eifion](#),' a bu'n weithgar gyda Chymreigyddion Dolgellau. Cyhoeddodd *Gwentwyson: sef Ymdrechfa y Beirdd; neu Awdlau Galarnadol am ... y Parch. Thomas Price (Carnhuanawc)*, 1849, a thwybiwyd mai ef a gyfieithodd *Traethawd ar Faddeuant Pechod*, 1809, o waith Abraham Booth, er nad oedd ond llanc ieuanc iawn ar y pryd - gweler dan [Evan Jones](#), 1777 - 1819.

Enillodd [Robert Ellis](#) ('Cynddelw') wobwr Iforiaid Casbach am awdl farwnad iddo ym Mai 1856.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Seren Gomer, 1856

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733032](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

